Mae cylchdaith Abermaw yn cynnig golygfeydd eang o'r tirwedd syfrdanol ar hyd aber Mawddach, yn ogystal â phenrhyn Llŷn yn y pellter. Mae'n dringo i fyny y tu ôl i'r dref drwy Ddinas Oleu ac at lwybr sathredig y Panorama, gan ddychwelyd ar draws tir fferm hyfryd a dod i lawr drwy goetir i'r dref. Gellir ymestyn y daith i fyny tuag at Llanaber ymhellach draw ar yr arfordir, gan ddychwelyd i Abermaw ar hyd Llwybr Arfordir Cymru.

## Manylion y daith

**Amcan o hyd:** 9km/5.6 milltir

**Amcan o'r amser:** 3 awr 30 munud

**Map AO:** graddfa 1:25 000 Explorer OL18

**Man cychwyn/gorffen:** Maes parcio'r traeth, SH613 156

## Mynediad a chyfleusterau

**Parcio:** Talu ac Arddangos ar Rhodfa'r Môr, ac ar hyd glan y môr. Mae digon o leoedd parcio hefyd yn y dref, LL42 1EF.

**Bws:** Lloyd's Coaches X28 a X29.

**Toiledau:** Mae yna ddau floc o doiledau cyhoeddus yng nghanol Abermaw ac mae rhai ger y traeth tua'r gogledd hefyd.

**Lluniaeth:** Mae digonedd o leoedd yn gwerthu lluniaeth yn y dref.

## Nodwch

- Mae dechrau'r daith o'r dref i fyny tua Dinas Oleu yn **serth iawn** mewn mannau. Mae yna hefyd nifer o **rannau byr serth** eraill ar hyd gweddill y daith.
- Braslun yw'r map hwn. Argymhellir defnyddio'r **map AO** uchod.
- Cofier gadw at y Côd Cefn Gwlad: ***Parchwch, Diogelwch, Mwynhewch*** naturalresources.wales/media/3598/cod-cefn-gwlad.pdf




Eryri
Mynyddoedd a Môr


# Cylchdaith 17 Abermaw





## Cyfarwyddiadau'r gylchdaith

Mae'r daith yn cychwyn yng nghanol Abermaw, oddi ar y stryd fawr. Ewch ymlaen ar hyd Ffordd yr Orsaf i Sgwâr Talbot a cherdded ymlaen am 100 llath ar hyd y stryd fawr. Chwiliwch am arwydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol am Dinas Oleu, gan esgyn y llwybr serth i gefn y dref, oddi ar y briffordd (A496). Mae'r daith yn eich arwain tua'r dwyrain i Lwybr y Panorama, gyda golygfeydd ymhell i fyny aber Afon Mawddach. Mae'n dychwelyd ar hyd godre'r bryniau uwch y dref cyn arwain i lawr drwy goetir yn ôl i Abermaw, gan gynnig golygfeydd bendigedig o benrhyn Llŷn. Mae amrywiad ar y daith yn mynd â chi i Lanaber, lle mae eglwys Seisnig gynnar drawiadol yn atgof o orffennol canoloesol yr ardal.




## Mannau o ddiddordeb

Gyda'i draethau tywodlyd braf, mae **Abermaw** ① a'i harbwr a'i hen dref yn gyrchfan lan môr boblogaidd ar arfordir gorllewinol Cymru, lle mae aber Mawddach yn cyfarfod Bae Bermo. Gan mai dyma'r gyrchfan lan môr agosaf i orllewin canolbarth Lloegr, mae'r dref wastad wedi bod yn ddewis poblogaidd i ymwelwyr o ran honno'n wlad. Yn ystod tymor yr haf, mae'r dref yn brysur ac yn fan poblogaidd i ymweld ag ef ac i fwynhau'r traeth tywodlyd. Tyfodd y dref o amgylch y masnachau gwlân a llechi, ac adeiladwyd nifer fawr o gychod hwylio cain yma o ddiwedd y ddeunawfed ganrif ymlaen. Daeth Abermaw, ynghyd â Phwllheli, yn brif ganolfan ar gyfer allforio llechi i Lundain.

Ymysg y tai to llechi o'r 18fed a'r 19eg ganrif mae nifer o adeiladau hŷn. Mae'n debyg mai'r hynaf o'r rhain yw tŷ caerog Tŷ Gwyn, a adeiladwyd ym 1460. Yn ôl pob sôn, dyma ble bu Jasper Tudor, ewythr Harri'r VII yn cuddio yn ystod Rhyfeloedd y Rhosynnau.

Uwchlaw'r dref saif y bryn a elwir yn **Dinas Oleu** ② gyda waliau'n amgáu'r copa sydd yn ôl pob golwg wedi goroesi ers Oes yr Haearn. Dyma'r safle cyntaf i gael ei roi yng ngofal yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ym mlwyddyn ei sefydlu ym 1895 gan Mrs Fanny Talbot, perchennog tir lleol oedd yn gyfaill i Octavia Hill, un o sefydlwyr yr Ymddiriedolaeth. Mae'r trwyn yn cynnig golygfeydd ysblennydd dros Aber Mawddach, gan gynnwys golygfeydd o linell arfordirol Rheilffordd y Cambrian dros yr aber. Adeiladwaith pren oedd y draphont yn wreiddiol pan y'i hadeiladwyd ym 1867. Yn 243 metr (800 troedfedd) o hyd, hon oedd pont aberol bren hiraf Prydain. Mae yma bromenâd pren sy'n addas i gerddwyr neu feicwyr ac sy'n rhan o Lwybr Arfordir Cymru a Rhwydwaith Beicio Lôn Las Cymru.

Yn oes Fictoria, roedd **llwybr y Panorama** ③ yn hynod boblogaidd, gymaint felly fel bod rhaid talu i fynd yno ac roedd ystafell de yno, er ei bod bellach wedi hen ddiflannu. Mae'r llethrau isaf yn araf gael eu hadennill gan goetir brodorol, ond mae'r olygfa'n dal i fod yn hudolus. Mae rhai'n honni mai'r rhain yw golygfeydd mwyaf ysblennydd Cymru.




Mae **Eglwys y Santes Fair a Sant Bodfan** ④ yn Llanaber yn eglwys gothig gynnar brin wedi'i lleoli ar lan y môr. Fe'i hadeiladwyd ar ddechrau'r drydedd ganrif ar ddeg a hynny, o bosib, i Llywelyn Fawr, un o lywodraethwyr mwyaf yr ardal a briododd Siwan, merch y Brenin John o Loegr. Mae golwg allanol yr eglwys yn cuddio perl bensaernïol y tu mewn.

www.ymweldageryri.info

This walk provides extensive views of both the stunning landscape along the Mawddach estuary and far-reaching views of the Llŷn Peninsula. It heads upwards behind the town via Dinas Olau to the well-trodden Panorama Walk, returning across attractive farmland and descending back to the town via woodland. The walk can be extended further the coast towards Llanaber, returning to Barmouth via the Wales Coast Path.

## Walk details

**Approx. distance:** 9km/5.6 miles
**Approx. time:** 3hrs 30 mins
**OS Map:** 1:25 000 scale Explorer Map OL18
**Star/finish:** Beach car park, SH613 156

## Access and amenities

**Parking:** Pay & display on Marine Parade, and along the seafront. Also extensive parking in the town, LL42 1EF.

**Bus:** Lloyd's Coaches X28 & X29

**Toilets:** Two public toilet blocks in the town centre, and also next to the beach going northwards.

**Refreshment:** there are a number of shops, cafes and pubs in the town providing food and refreshments.

## Please note

- The beginning of the walk from the town up towards Dinas Oleu is **very steep** in places. There are a number of other **short steep parts** along the rest of the route.
- This map is a rough guide only. We recommend you use the above **OS map**.
- Remember to adhere to the Countryside Code: ***Respect, Protect, Enjoy*** naturalresources.wales/media/1369/the-countryside-code.pdf




Snowdonia
Mountains and Coast


# 17 Barmouth Circular walk





## Walk directions

This walk starts from the centre of Barmouth, on the High Street. Proceed along Station Road into Talbot Square and then 100yards along the high street look out for the National Trust sign for Dinas Olau, which will guide you up to ascend the steep path to the rear of the town just off the main road (A496). The walk heads north eastwards to Panorama Walk, with far reaching views up the Afon Mawddach estuary. It returns to skirt the hills above the town before descending through woodland back to Barmouth, providing stunning views of the Llŷn Peninsula. A variant of the walk takes you to Llanaber, where a stunning early English church is a reminder of the area's medieval past.





## Points of interest

**Barmouth** ① with its harbour and old town, is a popular seaside resort with fine sandy beaches, located on the west coast of Wales where the Mawddach estuary enters Barmouth Bay. As one of the closest seaside resorts to the West Midlands, the town has always been a popular choice with visitors from that area. In the summer season the town is a busy and popular place to visit and to enjoy the sandy beach. The town grew around the trade in wool and slate, and fine sailing ships were built in large numbers from the late 18th century. Barmouth, along with Pwllheli, became the main centre for exporting slate to London.

Among the 18th and 19th century slate-roofed houses are a number of older properties, Probably the oldest of these Tŷ Gwyn Tower House, built in 1460 - the house was supposedly where Jasper Tudor, uncle Of Henry VII, hid during the Wars of the Roses.

Above the town sits the hill known as **Dinas Oleu** ② with surviving walls enclosing the summit that appear to date from the Iron Age. The property was the first site to be donated to the National Trust in the year the Trust was established, 1895. It was given by Mrs Fanny Talbot, a local landowner who was a freind of Octavia Hill, one of the founders of the National Trust. The promontary provides spectacular views over the Mawddach Estuary, including views of Cambrian Railway's coast line over Barmouth Bridge, which was originally a timber structure built in 1867. At 243 metres (800 ft) long, it was the longest timber estuarine bridge in Britain. It has a wooden promenade suitable for pedestrians or cyclists which is part of the Wales Coast Path and the Lon Las Cymru Cycle Network.

In the Victorian period the **Panorama walk** ③ was hugely popular, so much so that there was a tea room and an admission charge, both now long gone. The lower slopes are slowly being reclaimed by native woodland, but the view, however, is still as captivating. Some claim the views to be the most spectacular in Wales.




**St Bodfan's and St Mary's Church** ④ in Llanaber is a rare early Gothic church situated more or less on the sea shore. It was built in the early 13th century, possibly for one of the area's greatest rulers, Llywelyn the Great, who married Joan, daughter of King John of England. The exterior of the church disguises the architectural gem of an interior.

www.visitsnowdonia.info